Ysgol Iolo Morganwg

Polisi Prin Gyflenwi

Yn Ysgol Iolo Morganwg rydym yn ymroddgar tuag at gadw at y canllawiau a'r datganiadau a argymhellir yn Nogfennau a Chanllawiau tal a chyflogau Athrawon er mwyn sicrhau bod athrawon yr ysgol yn cyflenwi'n anaml ar gyfer cyd-weithwyr.

Mae'r polisi yma wedi cael ei ddatblygu o dan ddogfennaeth Tal a Chyflogau Athrawon 2009 ac yn berthnasol i bob athro/awes sydd heb ei b/penodi neu'n benodol wedi b/penodi ar gyfer cyflenwi. Mae hefyd yn cynnwys staff cynorthwyol.

Ymgynghoriad

Byddwn yn ymgynghori â phob staff a chynrychiolwyr Undeb ar ein calendr blynyddol gan sicrhau bod athrawon dim ond yn cyflenwi'n anaml. Fe fydd ymgynghoriad ar galendr yr ysgol yn flynyddol ac ar unrhyw adeg y bydd angen adolygu'r amserlen yn ystod y flwyddyn academaidd.

Amodau Penodol Cyflenwi

- Mae Ysgol Iolo Morganwg yn cydnabod bod darparu cyflenwi yn ddefnydd aneffeithiol o amser addysgu penodol athrawon.
- Mae ein hysgol yn ymroddgar tuag at ddefnyddio pob strategaeth posib er mwyn darparu cyflenwi cyn y bydd angen gofyn i aelod o staff gyflenwi.
- Bydd yr ysgol yn archwilio patrymau hanesyddol o absenoldeb er mwyn neilltuo adegau lle bydd yno bosibilrwydd o'r angen am gyflenwi.
- Fe fydd yr ysgol yn monitro, dadansoddi a recordio patrymau absenoldeb er mwyn gweithredu a datblygu systemau cyflenwi.
- Ar gyfer achlysuron annisgwyl, fe fydd yr ysgol yn monitro cyflenwi ymysg athrawon yn ofalus er mwyn sicrhau bod y cyflenwi wedi ei rannu'n deg.
- Mae Ysgol Iolo Morganwg yn sicrhau bod amser CPA athrawon yn rhan gyfreithiol o amodau tal a chyflogau athrawon, felly ni fydd amser CPA yn cael ei ddefnyddio fel adeg cyflenwi.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Lle adnabyddir yr angen am gyflenwi, fe fydd yr adnoddau canlynol yn cael eu defnyddio:

- Athrawon cyflenwi
- Uwch Gynorthwywyr

Fe fydd y pennaeth yn cymryd i ystyriaeth y ffactorau allweddol canlynol wrth benderfynu ar ddefnyddio swyddogion cyflenwi.

- Ymestyniad dilyniant, parhad ac ansawdd y dysgu.
- Yr amser y bydd grŵp penodol o blant yn gweithio heb athro/awes.
- Cyfartaledd amser cwricwlaidd pwnc sy'n cael ei effeithio dros gyfnod o dymor.

Lle bo staff cynorthwyol yn cael eu defnyddio i gyflenwi fe fydd hyn dan gyfarwyddyd athrawon ac o dan amodau datganiadau 133 o Ddeddf Addysg 2002 a chanllawiau cynorthwyol.

Fel ysgol, byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod athrawon yn cyflenwi'n anaml a phetai'r gofyn yn codi bydd y baich yn cael ei rannu'n gyfartal ymysg staff.

Ymadael Arbennig

Derbyniwn fel ysgol bod adegau pan fydd angen i staff gael amseroedd rhydd am faterion personol ac ymatebwn i'r anghenion hyn yn ein Polisi Ymadael Arbennig.

Ennill Amser

Pan fydd cyfleoedd i ryddhau athrawon o'r amserlen addysgu (e.e yn ystod adegau pan mae'r plant ar amser adolygu/arholiadau) rydym yn derbyn bod amser yn cael ei ennill.

Mae'n rhesymol i gyfarwytho athrawon i ymgymryd â'r gweithgaredd canlynol:

- Datblygu/adolygu adnoddau a chanllawiau pynciol/adrannol, cynlluniau gwaith, cynlluniau gwersi a pholisïau. Gallai hyn gynnwys cydnabod adnoddau perthnasol ar gyfer athrawon cyflenwi/ swyddogion cyflenwi.
- Cynorthwyo cyd-weithwyr i gynllunio/paratoi gweithgareddau addysgu tîm.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

- Cymryd grwpiau o ddisgyblion i gefnogi gwaith dysgu ychwanegol.
- Cefnogi gwaith cwrs i ddisgyblion penodol.
- Ymgymryd â gwaith DPP
- Ymgymryd â chynlluniau pontio a gynlluniwyd er mwyn sicrhau trosglwyddo o un flwyddyn i'r llall.

Monitro a gwerthuso'r Polisi.

Fe fydd aelod o'r uwch dim rheoli yn monitro effeithiolrwydd y strategaethau yn dymhorol er mwyn darparu cyflenwi gan sicrhau bod goruchwyliaeth yn ôl yr angen, a dilyniant a pharhad yn natblygiad y disgyblion a chysondeb yn y ddisgyblaeth.

Adolygu'r Polisi

Fe fydd y Pennaeth a'r Bwrdd Llywodraethol yn adolygu'r polisi'n flynyddol.

Derbyniwyd y polisi yn dilyn ymgynghoriad

Dyddiad: Hydref 2009

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image